# Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

# Dogfen ddiffinio i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac ysgolion eraill a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hysgrifennu i'w defnyddio gan bob ysgol yng Nghymru sy'n dod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000). Os ydych yn goleg chweched dosbarth, cewch ddewis defnyddio naill ai'r ddogfen ddiffinio hon neu'r un i golegau addysg bellach, fel y bo'n briodol i'ch cyfansoddiad chi. Er hynny, mae'n rhaid ichi egluro pa ddogfen rydych chi'n ei defnyddio.

Efallai y bydd y canllawiau hyn yn ddefnyddiol ichi os ydych chi wrthi'n datblygu'ch arweiniad eich hun i wybodaeth. Fel arall, os ydych yn ysgol fach, gallwch ddefnyddio'r Templed Arweiniad i Wybodaeth i'r sector ysgolion sydd ar gael ar y tudalen Dogfennau Diffinio ar wefan yr ICO.

Mae'r canllawiau'n rhoi enghreifftiau o'r mathau o wybodaeth y byddai'r ICO yn disgwyl ichi eu darparu er mwyn cyflawni'ch ymrwymiadau o dan gynllun cyhoeddi enghreifftiol Deddf 2000.

Mae'r ICO yn disgwyl ichi drefnu bod yr wybodaeth yn y ddogfen ddiffinio hon ar gael oni bai:

- nad yw'r wybodaeth gennych;
- bod yr wybodaeth wedi'i hesemptio o dan un o esemptiadau Deddf 2000 neu un o eithriadau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR), neu y gwaherddir ei rhyddhau o dan statud arall (ee Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data);
- bod yr wybodaeth ar gael yn rhwydd ac yn gyhoeddus oddi ar wefan allanol. Efallai bod yr wybodaeth honno wedi'i darparu gennych chi neu ar eich rhan. Rhaid ichi ddarparu dolen uniongyrchol i'r wybodaeth honno;
- bod yr wybodaeth wedi'i harchifo, yn hen neu fel arall yn anhygyrch; neu
- y byddai paratoi'r deunydd i'w ryddhau fel rhan o'r drefn yn anymarferol neu'n ddwys o ran adnoddau.

Os yw'r wybodaeth yn cael ei dal gan awdurdod cyhoeddus arall, dylech roi manylion ynghylch ble i'w chael.

Nid yw'r canllawiau wedi'u bwriadu i roi rhestr gynhwysfawr na diffiniol o bopeth a ddylai gael ei gynnwys mewn cynllun cyhoeddi. Mae'r ymrwymiad cyfreithiol yn ymwneud â'r cynllun cyhoeddi enghreifftiol, a dylech geisio darparu cymaint o wybodaeth â phosibl fel rhan o'r drefn.

Mae'r ICO yn disgwyl ichi ddarparu o leiaf wybodaeth sy'n ofynnol o dan statudau neu gan Lywodraeth Cymru neu yn rhinwedd cytundeb cyllido. Ni fyddai'r ICO yn disgwyl i ysgolion sy'n dod o dan gytundeb cyllido ddarparu gwybodaeth yn groes i ddarpariaethau'r cytundeb.

## Cyhoeddi setiau data i gael eu hailddefnyddio

Yn rhinwedd eich swydd fel awdurdod cyhoeddus, mae'n rhaid ichi gyhoeddi o dan eich cynllun cyhoeddi unrhyw set ddata sydd gennych ac y gofynnwyd amdani, ynghyd ag unrhyw fersiynau wedi'u diweddaru, oni bai eich bod yn fodlon nad yw'n briodol gwneud hynny. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid ichi ei chyhoeddi ar ffurf electronig sy'n gallu cael ei hailddefnyddio.

Os yw'r set ddata neu unrhyw ran ohoni yn waith hawlfraint perthnasol ac os chi yw'r unig berchennog, mae'n rhaid ichi drefnu ei bod ar gael i'w hailddefnyddio o dan delerau trwydded benodol. Nid yw setiau data y mae'r hawlfraint neu'r hawliau cronfa ddata ynddyn nhw yn perthyn i'r Goron yn weithiau hawlfraint perthnasol.

Mae Cod Ymarfer Adran 45 2018 yn argymell y dylai awdurdodau cyhoeddus drefnu bod setiau data ar gael i'w hailddefnyddio o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

Mae'r term "dataset" wedi'i ddiffinio yn adran 11(5) o Ddeddf 2000. Mae'r termau "relevant copyright work" a "specified licence" wedi'u diffinio yn adran 19(8) o Ddeddf 2000. Mae'r ICO wedi cyhoeddi canllawiau ar setiau data (adrannau 11, 19 a 45). Mae'r canllawiau hynny'n esbonio ystyr "not appropriate" a "capable of re-use.

## Cynllun cyhoeddi enghreifftiol

Mae'r tabl isod yn nodi'r wybodaeth benodol y mae'r ICO yn disgwyl ichi ei chyhoeddi o dan bob un o'r saith dosbarth gwybodaeth a nodir yn y cynllun cyhoeddi enghreifftiol.

## Dosbarth 1 – Pwy ydyn ni a beth wnawn ni

Gwybodaeth am y sefydliad, ei strwythurau, ei leoliadau a’i gysylltiadau

Yr wybodaeth yn y dosbarth hwn i fod yn wybodaeth gyfredol yn unig

- **Offeryn Llywodraethu**
- **Prosbectws yr ysgol**

Cynnwys prosbectws a chwricwlwm yr ysgol, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ac yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011.

Amlinelliad o gwricwlwm yr ysgol.

- **Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i’r rhieni**
- **Corff Llywodraethu**

Trefnwch fod enwau'r llywodraethwyr ar gael, a'r sail ar gyfer eu penodi, ynghyd â manylion am sut i gysylltu â nhw drwy'r ysgol.

- **Adroddiadau ar y bwlch cyflog rhwng y rhyweddau**

Darllenwch ganllawiau'r Llywodraeth ar adroddiadau ar y bwlch cyflog rhwng y rhyweddau i weld pa wybodaeth y mae angen ichi ei chyhoeddi. Cyhoeddwch y data hwn yn flynyddol os yw nifer eich staff yn 250 neu fwy.

- **Amserau sesiynau a dyddiadau tymhorau’r ysgol**

Rhowch fanylion amserau sesiynau’r ysgol a dyddiadau tymhorau a gwyliau'r ysgol.

- **Lleoliad a gwybodaeth gysylltu**

Cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad ebost a gwefan yr ysgol ynghyd ag enwau’r personél allweddol.

## Dosbarth 2 - Faint rydyn ni’n ei wario a sut

Gwybodaeth ariannol ynghylch yr incwm a’r gwariant a ragwelir a’r incwm a’r gwariant gwirioneddol, caffael, contractau ac archwiliadau

| ariannol |
| --- |
| Trefnwch fod gwybodaeth ariannol ar gael am y flwyddyn ariannol bresennol a’r ddwy flaenorol.<br><br>• **Cynllun cyllideb a datganiadau ariannol blynyddol**<br><br>Rhowch fanylion y ffynonellau cyllid ac incwm a ddarperir i'r ysgol a ffurflenni incwm a gwariant blynyddol yr ysgol.<br><br>Rhowch fanylion eitemau gwariant dros £5000, gan gynnwys gwybodaeth am gostau, cyflenwyr a thrafodiadau. Cyhoeddwch hyn o leiaf bob blwyddyn, neu os yw'n ymarferol ichi wneud hynny, bob chwarter neu bob chwe mis.<br><br>• **Cyllid cyfalaf**<br><br>Darparwch wybodaeth am gynlluniau mawr ar gyfer gwariant cyfalaf. Rhowch fanylion y cyllid cyfalaf a ddyrennir i chi neu gennych chi ynghyd â gwybodaeth am brosiectau adeiladu perthynol a phrosiectau cyfalaf eraill. Dylech gynnwys unrhyw gontractau menter cyllid preifat a chontractau partneriaeth cyhoeddus-preifat.<br><br>• **Adroddiadau archwiliadau ariannol**<br><br>• **Caffael a chontractau**<br><br>Rhowch fanylion y gweithdrefnau a ddefnyddir i gaffael nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys manylion contractau sydd wedi mynd drwy broses dendro ffurfiol.<br><br>• **Lwfansau a threuliau staff**<br><br>Rhowch fanylion y lwfansau neu'r treuliau y gellir eu hysgwyddo neu eu hawlio i’r holl staff. Cynhwyswch gyfanswm y lwfansau a'r treuliau a delir i aelodau unigol o’r staff drwy gyfeirio at gategorïau. Dylech lunio’r wybodaeth hon yn unol â’ch polisïau, eich arferion a’ch gweithdrefnau. Rhaid ichi gynnwys o leiaf teithio, cynhaliaeth a llety.<br><br>• **Cyflogau a strwythurau graddio’r staff**<br><br>Gallwch ddarparu hyn fel rhan o'ch strwythur sefydliadol. Cynhwyswch fanylion cyflogau’r staff uwch mewn bandiau o £5,000 o leiaf. Yn achos pob swydd arall, nodwch lefelau’r tâl yn ôl ystod y cyflog |

- **Lwfansau'r llywodraethwyr**

Rhowch fanylion lwfansau a threuliau a all gael eu hysgwyddo neu eu hawlio, a chofnod o gyfanswm y taliadau a wneir i lywodraethwyr unigol.

- **Premiymau neu fathau eraill o gymorth ariannol sydd ar gael**

Rhowch fanylion unrhyw bremiymau rydych chi'n eu cael neu unrhyw fathau eraill o gymorth ariannol a dderbynnir megis y rhai ar gyfer prydau ysgol am ddim neu Grantiau Amddifadedd Disgyblion.

## Dosbarth 3 - Beth yw'n blaenoriaethau a sut rydyn ni'n dod ymlaen

Strategaethau a chynlluniau, dangosyddion perfformiad, archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau

Rhowch yr wybodaeth gyfredol o leiaf.

- **Proffil yr ysgol**
    - Targedau perfformiad fesul cyfnod allweddol, data am y cyfraddau a'r targedau absenoldeb a roddwyd i Lywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol perthnasol;
    - Targedau sydd heb eu pennu;
    - Adroddiad llawn diweddaraf Estyn, gan gynnwys crynodeb gweithredol a chynlluniau gweithredu

- **Gwybodaeth rheoli perfformiad**

Rhowch fanylion eich polisi a'ch gweithdrefnau rheoli perfformiad fel y'u mabwysiadwyd gan eich corff llywodraethu.

- **Cynlluniau at y dyfodol**

Rhowch unrhyw gynigion mawr ar gyfer dyfodol yr ysgol sy'n golygu, er enghraifft, ymgynghori ar newid statws ysgol. Dylech gynnwys manylion cynlluniau datblygu'r ysgol a'ch strategaethau ar gyfer gwella yn unol â Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014.

- **Asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data (ar ffurf lawn neu grynodeb) neu unrhyw asesiad effaith arall (ee**

**Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a Diogelwch, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb etc), fel y bo'n briodol ac yn berthnasol**

## Dosbarth 4 – Sut rydyn ni'n gwneud penderfyniadau

Prosesau penderfynu a chofnodi penderfyniadau

Trefnwch fod gwybodaeth yn y dosbarth hwn ar gael ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r tair blaenorol o leiaf.

- **Polisi / penderfyniadau derbyn**

Eich trefniadau a'ch gweithdrefnau derbyn, ynghyd â gwybodaeth am yr hawl i apelio. Does dim rhaid ichi gyhoeddi penderfyniadau derbyn unigol ond os oes gennych wybodaeth o'r fath, cyhoeddwch wybodaeth am niferoedd/patrymau ceisiadau ymgeiswyr llwyddiannus, gan gynnwys y meini prawf yn achos ceisiadau llwyddiannus. Os nad chi yw eich awdurdod derbyn eich hun, rhowch ddolen uniongyrchol i'r tudalen perthnasol ar wefan yr awdurdod lleol.

- **Polisi gwahardd**

Eich fframwaith ar gyfer rheoleiddio'r amgylchiadau lle gall disgyblion gael eu diarddel o'r ysgol.

- **Cofnodion cyfarfodydd y corff Llywodraethu a'i bwyllgorau**

Cyhoeddwch, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, y cofnodion, yr agendâu a'r papurau a ystyrir mewn cyfarfodydd o'r fath, oni bai bod esemptiad yn gymwys i'r wybodaeth neu rannau ohoni.

## Dosbarth 5 - Ein polisïau a'n gweithdrefnau

Y protocolau, y polisïau a'r gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer cyflwyno'n gwasanaethau a gwireddu'n cyfrifoldebau

Yr wybodaeth yn y dosbarth hwn fod yn wybodaeth gyfredol yn unig.

- **Polisïau'r ysgol a dogfennau eraill**

| |
|---|
| Cynhwyswch bolisïau perthnasol fel eich polisïau ymddygiad, eDdiogelwch, Gwrth-fwlïo etc. Cynhwyswch o leiaf bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau y mae'n ofynnol ichi eu cael o dan statudau, gan Lywodraeth Cymru neu drwy eich cytundeb ariannu neu gytundeb cyfatebol. Dylech gynnwys hefyd bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â cheisiadau am wybodaeth a gweithredu'r cynllun cyhoeddi. |
| • **Polisïau rheoli cofnodion a data personol**<br><br>Cynhwyswch bolisïau diogelwch gwybodaeth, cadw, dinistrio ac archifo cofnodion, a pholisïau diogelu data (gan gynnwys rhannu data a defnyddio CCTV).<br><br>• **Diogelu ac amddiffyn plant**<br><br>Rhowch fanylion y polisïau a'r gweithdrefnau rydych chi wedi'u rhoi ar waith i sicrhau eich bod yn arfer eich swyddogaethau gyda golwg ar ddiogelu ac amddiffyn plant, gan gynnwys drwy hybu lles plant, gan gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.<br><br>• **Cydraddoldeb ac amrywiaeth**<br><br>Cynhwyswch bolisïau, cynlluniau, datganiadau, gweithdrefnau a chanllawiau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal.<br><br>• **Safonau'r Gymraeg**<br><br>Cynhwyswch fanylion am sut rydych chi'n cydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a/neu Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br><br>• **Iechyd a Diogelwch**<br>• **Datganiad Polisi Tâl**<br><br>Datganiad o'ch polisi a'ch gweithdrefnau ynghylch tâl, gan gynnwys eich dull o ymdrin ag unrhyw dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad ac o ddarparu cymorth i staff sydd â chyflogau is. Cyhoeddwch yr wybodaeth hon yn unol â **Thryloywder o ran cyflogau uwch-swyddogion yn y sector cyhoeddus datganoledig**.<br><br>• **Polisïau a gweithdrefnau ar recriwtio staff**<br><br>Trefnwch fod manylion swyddi gwag cyfredol ar gael yn rhwydd os yw'r rhain yn cael eu hysbysebu fel rhan o bolisïau recriwtio. |

- **Cyfundrefnau a pholisïau codi tâl**

Darparwch fanylion unrhyw gyfundrefnau statudol ar gyfer codi tâl am weithgareddau’r ysgol. Cynhwyswch bolisïau codi tâl ynghylch taliadau a godir am wybodaeth rydych chi’n ei chyhoeddi fel rhan o’r drefn. Fel rhan o’ch polisi codi tâl, nodwch yn glir pa gostau rydych chi’n eu hadennill, ar ba sail rydych chi’n gwneud hynny, a sut rydych chi’n eu cyfrifo.

Os ydych yn codi ffi am drwyddedu ailddefnyddio setiau data, nodwch yn eich arweiniad i wybodaeth sut rydych chi’n cyfrifo hyn ac a ydych chi’n codi'r tâl o dan y Rheoliadau Ffioedd Ailddefnyddio ynteu o dan ddeddfwriaeth arall. Chewch chi ddim codi ffi ailddefnyddio os ydych yn trefnu bod y setiau data ar gael i'w hailddefnyddio o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

- **Gweithdrefnau gwasanaeth i gwsmeriaid a chwynion, gan gynnwys cwynion gan y rhieni**

## Dosbarth 6 – Rhestrau a chofrestrau

Yr wybodaeth i fod mewn rhestrau a chofrestrau sy’n cael eu cadw ar hyn o bryd yn unig.

- **Cylchlythyrau ac offerynnau statudol y cwricwlwm**

Offerynnau Statudol (er enghraifft Rheoliadau), cylchlythyrau adrannol a memoranda gweinyddol a anfonir at y Pennaeth/Corff Llywodraethu ynglŷn â'r cwricwlwm.

- **CCTV**

Manylion lleoliadau unrhyw gamerâu gwyliadwriaeth CCTV agored sy'n cael eu gweithredu gennych chi neu ar eich rhan. Chi ddylai benderfynu ar lefel y manylion sy'n briodol. Gellid gwneud hyn fesul adeilad neu yn ôl lleoliadau daearyddol mwy cyffredinol e.e. codau post neu godau post rhannol, gan ddibynnu ar y materion diogelwch a godir.

- **Cofnodion datgeliadau**

Os ydych yn cynhyrchu cofnod datgeliadau sy'n nodi'r wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth a cheisiadau’r EIR, trefnwch ei fod ar gael yn rhwydd. Argymhellir cadw cofnodion datgeliadau fel arfer da.

- **Cofrestr asedau**

Trefnwch fod rhywfaint o wybodaeth ar gael o gofrestrau asedau cyfalaf, os oes gennych gofrestrau o'r fath.

- **Unrhyw wybodaeth y mae'n ofynnol yn gyfreithiol ar hyn o bryd ichi ei chadw mewn cofrestrau sydd ar gael i'r cyhoedd**

## Dosbarth 7 - Y gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig

Gwybodaeth am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu ar hyn o bryd, gan gynnwys taflenni, canllawiau a newyddlenni

Yn gyffredinol, mae hwn yn estyniad ar y dosbarth cyntaf o wybodaeth a gall gyfeirio hefyd at wybodaeth yr ymdrinnir â hi mewn dosbarthiadau eraill.

Fel rhan o'r dosbarth hwn, gallwch gynnwys:

- **Gweithgareddau allgyrsiol**
- **Clybiau y tu allan i'r ysgol**
- **Cyhoeddiadau'r ysgol**
- **Gwasanaethau y mae gennych hawl i adennill ffi ar eu cyfer, ynghyd â'r ffioedd hynny**
- **Taflenni, llyfrynnau a newyddlenni**